**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 14 Hydref 2021 am 9.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| J P Curtice | J A Hale | J W Jones |
| H M Morris | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Adrian Chard | Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol |
| Carryl Evans | Prif Bartner Busnes AD & DS |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J E Burtonshaw

---

**11 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**12 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau a gynhaliwyd ar 9 Medi 2021 fel cofnod cywir.

**13 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar yr agenda.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**14 Gwrandawiad Achwyniad.**

Cyflwynodd Adrian Chard, Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol, adroddiad o'r achwyniad i'r Pwyllgor. Darparwyd sylwadau ysgrifenedig o'r achwyniad ac ymateb y swyddog dan sylw yn yr adroddiad a gylchredwyd.

Derbyniodd y Pwyllgor sylwadau llafar gan y Swyddog dan sylw i gefnogi ei sylwadau a gyflwynwyd yn erbyn yr achwyniad honedig.

**Penderfynwyd** gwrthod y mater a dyma ddiwedd yr honiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.26 am

**Cadeirydd**